O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 61

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2026

Gwnaed	*4 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 61

The Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2026

Made	*4 March 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 61

TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 ("Rheoliadau 1996"), sy'n nodi'r prawf modd ar gyfer canfod swm y grant y caniateir i awdurdodau tai lleol ei dalu o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Mae rhai taliadau penodol sy'n dod o fewn y diffiniad o "access funds" yn cael eu diystyru at ddiben y prawf modd.

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") ac yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil a gyllidir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1996 i ddarparu bod taliadau a wneir gan Weinidogion Cymru neu'r Comisiwn o dan adran 97(1)(d) neu (e) o Ddeddf 2022 yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o "access funds" at ddiben y prawf modd a nodir yn Rheoliadau 1996.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2026 Rhif 61

TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2026

Gwnaed	*4 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 30 a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2026 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2026.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996

2. Yn rheoliad 41 (dehongli) o Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996(**3**), yn y diffiniad o "access funds"(**4**)—

(a) ar ddiwedd paragraff (c) hepgorer "or";

(b) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—"or

(e) payments made by the Welsh Ministers or by the Commission for Tertiary Education and Research under section 97(1)(d) or (e) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022(**5**);".

(**1**) 1996 p. 53.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 30, 146(1) a 146(2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru neu Welsh Parliament gan adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1). Yn rhinwedd paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r gofyniad i gael cymeradwyaeth y Trysorlys yn adran 30(9) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 wedi ei ddatgymhwyso.

(**3**) O.S. 1996/2890; y diwygiadau perthnasol yw O.S. 1999/1523, 2001/2073 (Cy. 145), 2002/2798 (Cy. 266), 2004/253 (Cy. 28), 2005/3238 (Cy. 243), 2010/297 (Cy. 39) a 2024/754 (Cy. 106). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**4**) Mewnosodwyd y diffiniad o "access funds" yn rheoliad 41 gan reoliad 12(a) o O.S. 2001/2073 (Cy. 145). Y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2002/2798 (Cy. 266), 2005/3238 (Cy. 243), 2010/297 (Cy. 39) a 2024/754 (Cy. 106). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**5**) 2022 dsc 1.

Jayne Bryant
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
4 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 61

HOUSING, WALES

The Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Housing Renewal Grants Regulations 1996 ("the 1996 Regulations"), which set out the means test for determining the amount of grant which may be paid by local housing authorities under Chapter 1 of Part 1 of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996. Certain payments which fall within the definition of "access funds" are disregarded for the purpose of the means test.

The Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 ("the 2022 Act") establishes the Commission for Tertiary Education and Research ("the Commission") and provides a new statutory framework for publicly funded tertiary education and research in Wales. These Regulations amend the 1996 Regulations to provide that payments made by the Welsh Ministers or the Commission under section 97(1)(d) or (e) of the 2022 Act are included in the definition of "access funds" for the purpose of the means test set out in the 1996 Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2026 No. 61

HOUSING, WALES

The Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2026

Made	*4 March 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 30 and 146(1) and (2) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996(**1**) and now exercisable by them(**2**).

Title, coming into force and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2026 and they come into force on 1 April 2026.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Amendments to the Housing Renewal Grants Regulations 1996

2. In regulation 41 (interpretation) of the Housing Renewal Grants Regulations 1996(**3**), in the definition of "access funds"(**4**)—

(a) at the end of paragraph (c) omit "or";

(b) after paragraph (d) insert—"or

(e) payments made by the Welsh Ministers or by the Commission for Tertiary Education and Research under section 97(1)(d) or (e) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022(**5**);".

(**1**) 1996 c. 53.

(**2**) The powers of the Secretary of State under sections 30, 146(1) and 146(2) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32). The National Assembly for Wales was renamed Senedd Cymru or the Welsh Parliament by section 2 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1). By virtue of paragraph 7 of Part 2 of Schedule 3 to the Government of Wales Act 2006, the requirement for Treasury approval in section 30(9) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 is disapplied.

(**3**) S.I. 1996/2890; relevant amendments are S.I. 1999/1523, 2001/2073 (W. 145), 2002/2798 (W. 266), 2004/253 (W. 28), 2005/3238 (W. 243), 2010/297 (W. 39) and 2024/754 (W. 106). There are other amending instruments but none are relevant.

(**4**) The definition of "access funds" in regulation 41 was inserted by S.I. 2001/2073 (W. 145), regulation 12(a). Relevant amendments are S.I. 2002/2798 (W. 266), 2005/3238 (W. 243), 2010/297 (W. 39) and 2024/754 (W. 106). There are other amendments not relevant to these Regulations.

(**5**) 2022 asc 1.

Jayne Bryant
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
4 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839832-8

9 780348 398328